# Polisi yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Sustainable Thinking
Meddwl Cynaliawy
Cardiff Metropolitan University
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Datganiad Polisi:** Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl o ran stiwardiaeth amgylcheddol y campws ac o ran hybu egwyddorion cynaliadwyedd mewn gweithgareddau addysgu ac ymchwil. Bydd y Brifysgol yn rheoli ei risgiau amgylcheddol mewn modd cynaliadwy drwy gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a mabwysiadu arfer gorau lle y bo'n briodol.

**Gweithredu'r Polisi:** Mae'n hanfodol bod datblygu cynaliadwy a rheoli amgylcheddol wrth wraidd holl weithgareddau'r sector addysg uwch ac ym Met Caerdydd. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ymdrechion y gymdeithas i gyflawni cynaliadwyedd drwy:

- yr amgylchedd y mae ei myfyrwyr yn dysgu ynddo
- y sgiliau a'r wybodaeth a gaffaelir ac a weithredir ganddynt;
- ei strategaethau a'i gweithrediadau ei hun

Mae'r polisi hwn yn gymwys i'r holl weithgarwch a wneir gan (neu ar ran) y Brifysgol, yn cynnwys gweithgarwch llywodraethwyr, staff, myfyrwyr a chontractwyr.

**Amcanion** y polisi hwn yw:

- I sicrhau bod cynaliadwyedd yn egwyddor graidd ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.
- I sicrhau bod yr holl risiau amgylcheddol yn cael eu hasesu, a'u rheoli.
- I hyrwyddo a mabwysiadu arfer gorau o fewn y sector addysg uwch.
- I gynnal a datblygu'r Brifysgol mewn modd cynaliadwy.
- I roi gwybod i gymuned y Brifysgol am faterion amgylcheddol.
- I ddatblygu cydberthnasau gwaith da ag awdurdodau a chyrff allanol perthnasol.
- I ddatblygu rheolwyr, staff a myfyrwyr drwy ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth ar ddatblygu cynaliadwy: rheoli amgylcheddol, cyfiawnder cymdeithasol a'r economi.

**Yn unol â'r datganiad polisi bydd y brifysgol yn gwneud y canlynol:**

- **Mabwysiadu datblygu cynaliadwy: Yr Amgylchedd, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Economi, fel egwyddor allweddol yng nghynllunio a chyflwyno strategol y Brifysgol**
  Cydlynu cynlluniau a gweithgareddau polisiau cyflenwol, i wella effeithiolrwydd a chanlyniadau;
  iechyd a lles, rheoli amgylcheddol, cydraddoldeb ac amrywiaeth a datblygiad staff.

- **Rheoli ei Risgiau Amgylcheddol**
  Cwrdd ag anghenion y ddeddfwriaeth amgylcheddol ac ymroi i'r broses o wella amgylcheddol parhaol.

- **Hyrwyddo a Mabwysiadu Arfer Gorau**
  Cynnal System Rheoli Amgylcheddol; pennu targedau a dangosyddion, mesur perfformiad amgylcheddol ac adrodd ar gynnydd.
  Hyrwyddo a mabwysiadu mentrau'r sector.

- **Cynnal a Datblygu'r Brifysgol mewn Modd Cynaliadwy**
  Drwy arfer gorau caffael cynaliadwy i gefnogi, dylanwadu a chyflwyno gwelliant parhaol ar draws agweddau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol o gynhyrchion a gwasanaethau, wrth sicrhau'r arfer gorau.
  Sicrhau'r effeithlonrwydd ynni gorau posibl, drwy ddefnyddio adnoddau adnewyddadwy a thechnoleg garbon isel;
  Lleihau gwastraff a hwyluso atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu yn hytrach na gwaredu gwastraff;
  Cynnal arolwg o ecoleg a bioamrywiaeth yr ystâd, a datblygu cynllun gweithredu gysylltiedig i wella ei pherfformiad a lleihau effaith;
  Hyrwyddo teithio cynaliadwy yn ôl ac ymlaen i'r campws;
  Hyrwyddo gwelliant parhaus o ran arferion cynnal a chadw;
  Annog gweithgareddau i alluogi myfyrwyr i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

- **Cyfathrebu â Chymuned y Brifysgol a chyfleu gwybodaeth iddi**
  Llunio Adroddiad Blynyddol
  Llunio adroddiadau i'r pwyllgorau priodol
  Cyfathrebu â'r Hyrwyddwyr Cynaliadwyedd

- **Gweithio gydag Awdurdodau a Chyrff Allanol**
  Datblygu cydberthnasau gwaith da â'r holl awdurdodau allanol perthnasol;
  Datblygu cysylltiadau â chyrff a chymdeithasau amgylcheddol priodol;
  Rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau fel y bo'n ofynnol.

- **Datblygiad Rheolwyr, Staff a Myfyrwyr**
  Darparu hyfforddiant a gwybodaeth briodol i gymuned y Brifysgol.

Llofnod:........................................................ Dyddiad: 26 June 2017

Yr Athro Cara Carmichael Aitchison
Llywydd ac Is-Ganghellor